

# Teithiau Cerdded Dolwyddelan



# Dolwyddelan walks

**Man cychwyn ar gyfer pob un o lwybrau Dolwyddelan:** maes parcio'r orsaf, cyf. grid: SH738522

**Cyfleusterau:** Toiledau, siop, caffi, tafarn a gwesty ym mhentref Dolwyddelan. Gallwch amrywio'r troeon hyn drwy ddefnyddio'r llwybr cysylltu glas sydd ar y map a cherdded dau gylch sy'n ganolig o ran pellter.

## 1a Cylch Byr Cwm Penamnen

**Pellter:** 3km / 1.9 milltir

**Graddfa:** Hawdd - llwybr caregog sy'n weddol wastad, a lôn

**Crynodeb:** lle picnic ar lan yr afon, murddun hanesyddol

### Y Daith Gerdded

1. O'r maes parcio, ewch i'r chwith ac i'r ffordd. Ewch i'r chwith dros y bont ac i'r chwith eto ar unwaith. Ymhen 20m, trowch i'r dde i ffordd garegog y goedwig. Ar y fforch yn y llwybr, tueddwch i'r dde a dal i fynd ar i lawr tua'r afon. Trowch i'r dde oddi ar y prif lwybr i lawr llwybr naturiol i'r afon. Croeswch y bont i'r lle picnic. Trowch i'r dde i'r lôn gan fynd heibio adfeilion Tai Penamnen. Daliwch ymlaen ar y lôn ac yn ôl i'r pentref. Wrth bont y rheilffordd ewch yn ôl yr un fordd ac i'r maes parcio.

### *Tai Penamnen*

*Bu hwn yn dŷ mawr ar un adeg ac yn gartref i Maredudd ab Ieuan, sylfaenydd teulu grymus yr Wynniaid, a pherchennog llawer o'r tir yma yn ystod y 15fed ganrif. Tybir iddo godi Tai Penamnen (neu ymestyn adeilad blaenorol) yn amddiffynfa rhag herwyr oedd yn brawychu'r ardal yr adeg honno. Cafodd y brydles ar Gastell Dolwyddelan yn 1480 ac o fewn deg mlynedd fe lwyddodd i greu trefn ac i reoli'r ardal.*

*Yn y 18fed ganrif Angharad James oedd yn rhentu'r tŷ a'r dyffryn cyfan. Roedd hi'n fawr ei pharch, yn enwog am ei dealltwriaeth o'r gyfraith, ac am ei cherddi a'i cherddoriaeth. Arferai ganu'r delyn yn gyfeiliant i ddawnsfeydd ei morynion gan alw'r llecyn yn 'Clwt y Ddawns'. Roedd ganddi ei chylch o feirdd o ferched, peth anghyffredin yr adeg honno. Yn un o'i cherddi ceir trafodaeth rhwng dwy chwaer ynghylch dewis gŵr - un o blaid priodi hen ddyn, a'r llall o blaid dyn ifanc.*






*Argraff Artist o Dai Penamnen*
*Artist's impression of Tai Penamnen*

**Start for all Dolwyddelan routes:** Station car park, grid ref: SH738522

**Facilities:** Toilets, shop, cafe, pub and hotel in Dolwyddelan

These routes can be varied using the blue link path marked on the map to make two intermediate length circuits.

## 1a Cwm Penamnen short circuit

**Distance:** 3km / 1.9 miles

**Grade:** Easy, fairly flat gravel track and lane

**Summary:** Riverside picnic area, historic ruins

### The Route

**1.** From the car park turn left onto the road then left over the bridge and immediate left again. After 20m turn right onto a gravel forest track. At path fork bear right and continue down towards the river. Turn right off the main track down a natural path to the river. Cross the footbridge to a picnic area. Then turn right onto the lane, passing the ruins of Tai Penamnen. Continue along the lane back into the village. At the railway bridge retrace your steps to the car park.

### *Tai Penamnen*

*This once large house was the home of Maredudd ab Ieuan, the founder of the powerful Wynn dynasty, who owned much of the land here in 15th century. He is thought to have built Tai Penamnen (or extended an earlier building) to defend against the outlaws who terrorised the area at that time. He obtained the lease on Dolwyddelan Castle in 1480 and, within the next decade, managed to bring order and control to the area.*

*Angharad James rented the house and the whole valley in the 18th century. She was a highly respected woman, renowned for her knowledge of the law and also her poetry and music. She used to play her harp while her maids danced at a spot called 'clwt y ddawns', a patch of land for dancing. She had her own circle of female poets, which was unusual in those times. One of her poems was a discussion between two sisters about marriage, one choosing to marry an old man, another a young one!*